# Diogelu

**Yn Gysylltiedig â Rheoliadau 12 (1) a 26 a 27 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017**

| HANES Y DDOGFEN | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif y Fersiwn: | 1 | Statws (drafft/ terfynol) | terfynol |
| Dyddiad ysgrifennwyd y ddogfen | 03.10.2023 | Dyddiad y cyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad | |
| Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb | | | |
| Dogfennau cefnogol | | | |
| Awdurdodwyd gan: Pennaeth y Gwasanaeth Rheoli Plant/ Oedolion | Dyddiad: 26.02.24 | Cadarnhawyd gan: J Llewellyn Cyngor | Dyddiad: Ebrill 24 |
| Prif Ddyletswydd: | Awdur: Warren Davies | Dyddiad Gweithredu: Mawrth 24 | Dyddiad Adolygu: Ebrill 25 |
| Canlyniad yr Adolygiad: | | | |

# Cynnwys


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Ystod y Polisi | |
| Gweithdrefnau Diogelu Cymru | |
| Rhoi Gwybod am Amheuon neu Honiadau o Gam-drin, Esgeulustod neu Niwed | |
| Derbyn Pryderon | |
| Dyletswyddau'r Rheolwr | |
| | |
| | |
| | |
| | |


**Ystod y Polisi:**
Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn casglu gymaint o wybodaeth â phosib am blant er mwyn ein cynorthwyo ni i benderfynu pa un ai i'w derbyn nhw ai peidio, ac os ydym yn eu derbyn, i sicrhau ein bod yn ofalus o'u hanghenion ac yn cymryd pob cam rhesymol i'w gwrachod nhw rhag niwed a cham.

Rydym yn darparu lefel uchel o oruchwyliaeth wedi cydbwyso â chyfleoedd addas ar gyfer preifatrwydd a sicrwydd. Serch hynny, ni fyddwn yn caniatáu i blant osod eu hunain mewn peryg a byddwn yn cymryd pob cam rhesymol er mwyn eu hatal rhag achosi niwed i'w hunain ac i eraill i'r fath rathau a defnyddio ymyrraeth gorfforol, yn cynnwys ataliaeth pan fetho popeth arall.

Byddwn yn darparu digon o gyfleoedd i blant fynegi eu teimladau, eu gobeithion a'u hofnau yn nhermau eu bywyd beunyddiol, eu haddysg ac o ran cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Byddwn yn darparu'r plant gyda gwybodaeth, cyngor ac addysg sydd wedi eu cynllunio i'w cynorthwyo nhw i warchod eu hawliau eu hunain ac i fyw bywydau iach.

Byddwn yn darparu hyfforddiant blynyddol i staff gan roi gweithdrefnau clir yn ei lle o ran adnabod ac ymateb i amheuon neu gyhuddiadau o gam-drin, esgeulustod neu niwed.

Ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn parhau i gyflogi staff sy'n ymgymryd â pherthnasau sy'n cam drin plant neu sydd â'r tueddiad o'u gosod mewn peryg o anafiadau neu niwed. Fel sydd angen, byddwn yn rhoi gwybod i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, y Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol Cymru am unrhyw aelod o staff sydd wedi colli ei swydd o ganlyniad i ymddygiad o gam-drin. Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu ynghylch penderfyniadau o'r fath gydag aelodau staff y dyfodol.

Mae’n rhaid i staff weithredu yn unol â’r polisi hwn ac yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Rhaid i staff weithredu’n syth bin er mwyn sicrhau diogelwch yr unigolion sy’n derbyn gofal gennym.

Rhaid i staff wneud y trefniadau atgyfeirio priodol i asiantau eraill fel sy’n addas.

Rhaid i staff gadw cofnod o unrhyw dystiolaeth neu hanfod unrhyw honiad, unrhyw weithred a gymerwyd ac unrhyw atgyfeirio a wnaed.

**Gweithdrefnau Diogelu Cymru:**

Mae Diogelu a hybu llesiant plant yn ddyletswydd sydd wedi ei rannu ac sy’n dibynnu ar gydweithio effeithiol rhwng pob aelod o staff a phob asiant a’r holl bobl broffesiynol perthnasol.

Gellir dod o hyd i ddiffiniadau Diogelu yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru. Dylai pob ymarferwr fod yn ymwybodol o’r diffiniadau cam drin ac esgeulustod o fewn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ogystal ag arwyddion o gam drin ac esgeulustod. Mae hwn yn hanfodol er mwyn gallu cyfathrebu pryderon ynghylch niwed mewn dull ystyrlon.

Os oes gan aelod o staff unrhyw amheuaeth bod plentyn wedi cael ei gam drin neu efallai y bydd yn cael ei gam-drin neu ei niweidio, mae ganddynt ddyletswydd i roi gwybod i reolwr y cartref neu’r rheolwr sydd ar ddyletswydd ar y pryd / Y Tîm Dyletswydd Mewn Argyfwng y tu allan i oriau gwaith.

Rhaid cymryd pob un honiad o ddifrif a rhaid rhoi gwybod am bob un honiad. Os oes gan aelod staff wybodaeth, neu bryderon, neu amheuaeth bod plentyn yn dioddef, wedi dioddef neu ei fod yn debygol o fod mewn peryg o niwed, mae’n ddyletswydd arnynt i sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i’r tîm rheoli am eu pryderon ac yn eu cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol a’r heddlu sydd â dyletswydd statudol a’r pŵer i ymholi ac ymyrryd lle fo’n briodol.

**Rhoi Gwybod am Amheuon neu Honiadau o Gam-drin, Esgeulustod neu Niwed:**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a.128 yn pennu’r ddyletswydd a roddir ar ‘bartneriaid perthnasol’ ymarferwyr o dan a.162 o’r Ddeddf i roi gwybod am blant y mae ganddynt achos rhesymol i amau eu bod mewn perygl o niwed. At ddiben y polisi hwn ‘ymarferydd’ yw unrhyw berson sy’n gweithio o fewn y gwasanaeth.

Dylai staff sy'n derbyn datgeliad, sy'n pryderi neu’n amau neu os gwneir honiad, dylent, yn y lle cyntaf, sicrhau bod eu pryderon yn cael eu hadrodd ar unwaith i reolwr y cartref neu'r rheolwr ar alwad a fydd yn ei dro yn adrodd i'r Unigolyn Cyfrifol a'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r tîm dyletswydd brys lle gallai'r cam-drin/niwed a amheuir fod wedi digwydd y tu allan i oriau gwaith arferol.

Os yw'r rheolwr yn gysylltiedig â'r sefyllfa, dylai staff roi gwybod ar unwaith i'r Unigolyn Cyfrifol a fydd yn ei dro yn rhoi gwybod am y mater i'r gwasanaethau cymdeithasol ac yn gwneud yr hysbysiadau angenrheidiol.

Dylid gwneud atgyfeiriad amddiffyn plant (MARF) os ystyrir bod angen gweithredu i ddiogelu plant. Ym mhob achlysur, dylai rheolwr y cartref wneud cyfeiriadau o fewn 24 awr oni bai ei bod yn gysylltiedig â'r sefyllfa a'u cadarnhau'n ysgrifenedig o fewn 24 awr. Dylid ystyried a oes angen cyfeirio at yr heddlu cyn cynnal trafodaeth gyda'r tîm gwaith cymdeithasol. Os ydy'r rheolwr yn gysylltiedig, dylai'r atgyfeiriad amddiffyn plant gael ei wneud o fewn 24 awr gan yr Unigolyn Cyfrifol.

*Argyfwng*
Mewn achos lle fo'r plentyn mewn peryg uniongyrchol mae'n rhaid i staff weithredu yn y modd angenrheidiol fydd efallai yn golygu gofyn am gefnogaeth gan yr heddlu neu gymorth meddygol brys. Os cymerir y plentyn i'r ysbyty, neu os gelwir yr heddlu, mae'n rhaid i staff eu hysbysu bod amheuaeth o gam-drin, esgeulustod a niwed. Mae'n rhaid i staff hefyd roi gwybod i reolwr y cartref neu'r rheolwr sydd ar ddyletswydd.

Unwaith iddo / iddi gael gwybod, bydd y rheolwr / y rheolwr ar ddyletswydd yn gyfrifol am ddilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru ac am gysylltu gyda'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Blant neu EDT.

Rhaid i'r rheolwr hysbysu ei reolwr llinell neu uwch reolwr arall. Rhaid i'r rheolwr hysbysu a diweddaru Arolygiaeth Gofal Cymru am gychwyn a chanlyniad unrhyw Ymchwiliad Amddiffyn Plant dilynol neu fel y cytunwyd drwy'r cyfarfod strategaeth proffesiynol.

*Di-argyfwng*
Mae'n rhaid i unrhyw aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n cael gwybod bod, neu sy'n amau bod, plentyn wedi cael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio neu fod hynny'n bosib, rhaid iddynt roi gwybod i reolwr y cartref neu'r rheolwr ar ddyletswydd a fydd yn ei dro'n rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac, os oes angen, yr heddlu.

Nid yw peidio â gweithredu ar bryderon o'r fath yn opsiwn wrth warchod plant ac mae gan bob un aelod o staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ddyletswydd i weithredu. Gall peidio â rhoi gwybod am bryderon o'r fath yn syth bin gael ei ystyried yn gamymddwyn difrifol a gellir cymryd y camau disgyblu priodol.

**Derbyn pryderon:**

Gall staff ofyn am eglurhad ynghylch y pryderon a godir gyda phlant, ond ni ellir gofyn cwestiynau arweiniol na chymryd camau i ymchwilio nac mewn unrhyw fodd eistedd mewn barn ar yr hyn a adroddwyd. Dim ond pobl awdurdodedig a gytunwyd gan y Prif Swyddog / RI all ymgymryd ag ymchwiliad.

Rhaid i staff beidio ag addo cyfrinachedd i'r sawl sy'n rhoi gwybod am yr achos posib o gam-drin, esgeulustod neu niwed, ond dylent gadarnhau mai dim ond gyda'r nifer

lleiaf o bobl sydd angen gwybod y byddai'r wybodaeth yn cael ei rhannu er mwyn sicrhau bod y gweithredoedd priodol yn digwydd er mwyn datrys y pryder.

Mae'n rhaid i staff wneud cofnod ysgrifenedig, cyn gynted â phosib, o'r hyn a ddywedwyd wrthynt, yn rhoi manylion y cwestiynau a ofynnwyd ganddynt, yr atebion a roddwyd, a'r camau gweithredu a waned a chan bwy.

Yna mae'n rhaid iddynt rannu'r adroddiad gyda rheolwr y cartref neu'r rheolwr sydd ar ddyletswydd. Rhaid gosod y cofnod ar ffeil y plentyn, heblaw mewn achos lle mae cydweithiwr yn gysylltiedig â'r honiad neu os fyddai unrhyw beryg i'r plentyn o ganlyniad, mewn achos o'r fath dylid rhoi'r adroddiad i'r rheolwr sy'n delio â'r mater.

**Cyfrifoldebau'r Rheolwr:**
Wedi derbyn adroddiad o amheuaeth neu honiad o gam-drin, esgeulustod neu niwed, mae'n rhaid i'r rheolwr yn y cychwyn cyntaf gymryd unrhyw gamau angenrheidiol er mwyn gwarchod y plentyn dan sylw rhag peryg o niwed uniongyrchol.

Gan sicrhau bod y gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn o fewn y cartref a thrwy gysylltu â'r bobl briodol o fewn Gwasanaethau Plant ac mewn mannau eraill dros faterion gwarchod.

Rhaid atgyfeirio unrhyw adroddiadau o amheuon neu honiadau o gam-drin, esgeulustod neu niwed, i'r gwasanaethau cymdeithasol.

Rhaid hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol a rhaid cadw cofnod o'r holl atgyfeiriadau diogelu yn y cartref ei hun.

Rhaid bod Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar fwrdd gwaith pob un cyfrifiadur/gliniadur gwaith o fewn y cartref sy'n cael eu defnyddio gan staff, er mwyn i staff allu cael gafael ar y gweithdrefnau hyn.

Rhaid sicrhau bod yr holl staff yn gyfarwydd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru a bod ganddynt fynediad i ganolfannau gwybodaeth eu Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

Rhaid cadw copi cyfredol o'r Canllaw Anstatudol i Ymarferwyr – Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl a rhannu gwybodaeth i ddiogelu plant o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Dylid atgoffa pob aelod o staff o Weithdrefnau Diogelu Cymru bob chwarter trwy oruchwyliaeth uniongyrchol.

Rhaid hefyd ystyried Polisi Diogelu'r Awdurdod Lleol ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

| **Ffurflen Adborth**<br>Enw'r Polisi: |
|---|
| Cofnodwch eich manylion o 'Hanes y Ddogfen' o'r clawr blaen os gwelwch yn dda |

| **Ffurflen Adborth**<br>Enw'r Polisi: | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif y Fersiwn: | | Statws:<br>(drafft/terfynol) | |
| Dyddiad Ysgrifenwyd y Ddogfen: | | Dyddiad cyhoeddwyd y ddogfen ar gyfer ymgynghoriad | |

Byddai'r **Grŵp Datblygu Polisi'n** gwerthfawrogi eich awgrymiadau a'ch sylwadau er mwyn eu hystyried yn ystod yr **Adolygiad** nesaf. Byddem wir yn hoffi derbyn eich adborth ynghylch y ddogfen hon a byddem yn croesawu eich barn am yr hyn y dylem ei ychwanegu, ei ddileu neu eu newid. Hoffem hefyd dderbyn cyngor ynghylch:

- Materion sy'n ymwneud ag arferion neu hyfforddiant ac sydd wedi eu selio ar dystiolaeth
- Unrhyw faes arferion a fyddai o fudd i ofal defnyddwyr y gwasanaeth drwy gael ei ychwanegu at y ddogfen, neu unrhyw elfennau eraill o'r arferion gwaith y dylem gynnwys fan hyn
- Unrhyw wallau ffeithiol neu anghywirdeb o fewn y ddogfen
- Unrhyw faterion perthnasol eraill a fyddai'n gymorth i hysbysu'r polisi.

Defnyddiwch y gwagle isod a thros y dudalen er mwyn nodi eich sylwadau os gwelwch yn dda.

Byddai'n gymorth petai chi'n rhoi'r dyddiad ar eich sylwadau.

Teimlwch yn rhydd i gelu eich manylion adnabod chi eich hun os ydych yn teimlo bod angen gwneud hynny.

Dychwelwch eich sylwadau i

| **Ffurflen Adborth**<br>Enw'r Polisi: |
| --- |
| |